



Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Dydd Llun 24 Mai 2021

10.00am

Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol:-

Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd) **(EAP)**

Y Cyngorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Is-Gadeirydd) **(RH)**

Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**

Ann Watkin, Llywodraeth Cymru **(AW)**

Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**

Arwyn Watkins OBE, Hyfforddiant Cambrian **(ArW)**

Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**

Claire Miles, Cyngor Sir Ceredigion **(CM)**

Y Cyngorydd Gareth Thomas, Cyngor Sir Gwynedd **(Cyng.GT)**

Y Cyngorydd Iain McIntosh, Cyngor Sir Powys **(Cyng.IM)**

Y Cyngorydd Phyl Davies, Cyngor Sir Powys **(Cyng.PhD)**

Y Cyngorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyng.RE)**

Dafydd Wyn Morgan, Menter Mynyddoedd Cambria **(DWM)**

Dr. Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**

Dr. Rhian Hayward, AberInnovation **(RH)**

Dr. Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth **(RLIM)**

Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**

Esther Wakeling, Menter Mynyddoedd Cambria **(EW)**

Gareth Jones, Cyngor Sir Powys **(GJ)** Gavin Bown, NRW **(GB)**

Geraint Rees, Cyngor Sir Powys **(GR)**

Glenn Bowen, Canolfan Cydweithredol Cymru **(GIB)**

Gwawr Price, Croeso Cymru **(GP)**

Gwilym Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **(GJ)**

Jo Weale, Cyngor Sir Powys, **(JW)**

Marie Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(ME)**

Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC **(MD)**

Matt Morden, Coleg Ceredigion **(MM)**

Nia Williams, Bwrdd Iechyd Hywel Dda **(NW)**

Nick Venti, PAVO **(NV)**

Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys **(NB)**

Peter Davies MBE, Undeb Amaethwyr Cymru **(PD)**

Rowland Rees-Evans, Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru **(RRE)**

Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**

Steve Hughson, Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru **(SH)**

<p>1.</p>	<p>Ymddiheuriadau Cafwyd ymddiheuriadau gan:- Lowri Gwilym, CLILC Derek Walker, Prif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru Rachel Garside Jones, Llywodraeth Cymru Steffan Roberts, Llywodraeth Cymru Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cyngor Sir Gwynedd Emma Wilde, Siambr Fasnach Canolbarth Cymru Peter Davies, NFU Stella Owen, NFU Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion Rhodri Griffiths, Llywodraeth Cymru Peter Skitt, Cydbwyllgor Iechyd Canolbarth Cymru</p>
<p>2.</p>	<p>Derbyn Cofnodion cyfarfod blaenorol PTCC a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir, ar yr amod bod y dyddiad dan eitem 2 yn cael ei gywiro a bod enw Gavin Brown yn cael ei gywiro ar restr y sawl a oedd yn bresennol.</p>
<p>3.</p>	<p>Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad am y Cynnydd Cafwyd diweddariad ar lafar gan CJE a chadarnhaodd y byddai'n darparu diweddariad ysgrifenedig am y cynnydd a sicrhawyd, ac yn dosbarthu papurau ar gyfer cyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a gynhelir ddydd Mercher i aelodau'r Bartneriaeth.</p> <p>Ar ôl cytuno ar Benawdau'r Telerau ar ddiwedd 2020, yr ysgogiad gwleidyddol gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru oedd sicrhau Cytundeb Bargen Lawn o fewn y flwyddyn galendr (2021). Mae'r portffolio yn cael ei ddatblygu a chynhelir cyfarfodydd gyda gweision sifil o'r ddwy Lywodraeth bob pythefnos er mwyn sicrhau deialog reolaidd am y cynnydd ac er mwyn parhau i egluro'r disgwyliadau a'r manylder sy'n ofynnol.</p> <p>Mae swyddogion yn cynnal sgysiau gyda chynigwyr prosiect ym mhob achos, gan annog datblygiad eu cynigion i lefel fanylder a allai helpu'r Bwrdd ac ESG i ddechrau gwneud penderfyniadau gwybodus yn erbyn y Portffolio sy'n dod i'r amlwg, gan bennu cymysgedd y prosiectau y byddent yn cael eu cynnig i'w hystyried yn gychwynnol gan Lywodraethau yn yr Hydref.</p> <p>Wrth i'r gwaith hwn barhau, mae hi'n amlwg bod cyfyngiadau sylweddol o ran capasiti yn y tymor byr yn bodoli o fewn timau'r Awdurdodau Lleol sy'n gweithio ar ddatblygu'r Fargen Twf er mwyn sicrhau Cytundeb Bargen Lawn (FDA) erbyn diwedd 2021. Byddai'r Bwrdd yn cael cais i gymeradwyo gwaith ar fyrder i gomisiynu capasiti allanol er mwyn helpu i reoli'r gwaith sy'n weddill er mwyn sicrhau FDA, datblygu'r Achos Busnes Portffolio ymhellach a'r Achosion Busnes Rhaglen cysylltiedig.</p>
<p>4.</p>	<p>Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad am y Cynnydd</p>

	<p>Cafwyd diweddariad ar lafar gan JW. Dywedodd y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 12 Mai ac y bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf. Nododd hefyd y byddai'r Rheolwr Partneriaeth Rhanbarthol newydd yn cychwyn yn ei swydd ar 8 Mehefin. Yn dilyn y cyfweiliad, hysbyswyd y cyfarfod gan EAP y penodwyd Adrian Watson yn Gadeirydd interim am y 6 mis nesaf ac y byddai'r Bwrdd yn gwneud ei benodiad ei hun ar ôl yr adeg honno.</p>
<p>5.</p>	<p>Diweddariadau Busnes</p> <p>i. Rhaglen Buddsoddi Adfywio wedi'i Dargedu Amlinellodd GJ raglen ariannu Llywodraeth Cymru er mwyn adfywio canol trefi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Trawsnewid Trefi 2021-22 • Grant Creu Lleoedd • Cyllid Refeniw ar gyfer Canol Trefi • Prosiectau strategol <p>Dywedodd GJ bod paneli ym mhob awdurdod lleol a phanel rhanbarthol yn goruchwyllo'r cynlluniau. Nododd RH bod cryn dipyn o bentrefi yn y rhanbarth y mae angen help arnynt hefyd. Byddai hi ac EAP yn codi hyn yn Fforwm Gwledig CLILC.</p> <p>ii. Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Adroddodd CM am y gwaith a gyflawnir er mwyn cynorthwyo cyflawniad ac aliniad Bargen Twf Canolbarth Cymru. Rhoddodd ddiweddariad am Dwristiaeth a Threftadaeth Ucheldirol Arfordirol (CUPHAT) hefyd. Cynllun yw hwn a ddatblygir gan Brifysgol Aberystwyth, ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, Coleg Prifysgol Dulyn a Rhaglen Discovery Iwerddon er mwyn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yn yr ucheldiroedd arfordirol ar lan Môr Iwerddon, gan arwain at greu tirluniau a chymunedau cynaliadwy.</p> <p>PENDERFYNWYD cymeradwyo gweithrediad CUPHAT a ddatblygir gan Brifysgol Aberystwyth fel rhanbarth, gyda'r cafeat y dylid cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid rhanbarthol perthnasol er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl o ran gweithgarwch.</p> <p>iii. Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith Yn ogystal â'r eitemau a nodir yn ei hadroddiad, nododd AE y caiff gwasanaethau rheilffordd eu hailstrwythuro yn Lloegr, sef cyhoeddiad a wnaethpwyd gan lywodraeth y DU, a bod Traws Cymru yn peilota bws hydrogen yn Aberystwyth.</p>
<p>6.</p>	<p>Diweddariad gan y Llywodraeth(au)</p> <p>i. Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol LIC a materion rhanbarthol cysylltiedig Adroddodd AW bod Gweinidog yr Economi newydd, Vaughan Gething AS yn awyddus i gyfarfod partneriaid yn y rhanbarth. Byddai'r weinyddiaeth newydd yn cyhoeddi ei rhaglen lywodraethu yn fuan, ac roedd hi'n amlwg y byddai mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd wrth wraidd polisi'r llywodraeth, gyda Julie James AS wedi cael ei phenodi'n Weinidog Newid Hinsawdd hefyd.</p> <p>Nododd hefyd bod gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i sicrhau y byddai fframwaith economaidd rhanbarthol mewn grym ac y byddai'n parhau i</p>

	<p>weithio gyda'r rhanbarthau. Roedd cyllid ar gyfer tair rhaglen strategol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosiect y Rhynggrwyd Pethau • Cronfa Busnes Cyfalaf Bach • Cyllid ar gyfer prosiect seilwaith cyfalaf. <p>Roedd cyllid ar gael hefyd i gynorthwyo busnes trwy'r Gronfa Cadernid Economaidd, y Gronfa Adferiad Diwylliannol i weithwyr llawrydd yn sector y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a digwyddiadau, a'r Gronfa Addysg Awyr Agored Preswyl.</p>
<p>7.</p>	<p>Diweddariadau Rhanbarthol Ehangach Menter Mynyddoedd Cambria – cyflwyniad</p> <p>Cafwyd cyflwyniad gan EW a DWM am waith Menter Mynyddoedd Cambria, er mwyn codi proffil Mynyddoedd Cambria a chynnal y ffordd o fyw yn yr ucheldiroedd.</p> <p>Ymhlith y prosiectau a gynhaliwyd gan y Fenter, roeddent wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lansio Llwybr Astro Mynyddoedd Cambria. • Gweithio gyda'r cyfryngau i godi ymwybyddiaeth. • Datblygu cynllun cynnyrch lleol. • Gweithio gydag ymgynghorwyr er mwyn creu cynllun gweithredu i gyfuno cyfleoedd mynediad a hamdden. <p>Ar hyn o bryd, roeddent yn ymgynghori am statws tirlun y rhanbarth er mwyn helpu i greu economi ucheldirol gynaliadwy. Esboniodd EW nad yw hyn yn golygu y byddent yn dymuno gweld yr ardal yn cael ei dynodi'n barc cenedlaethol neu'n AHNE. Rhybuddiodd RH y gallai fod anfanteision i'r cam o neilltuo dynodiad i'r rhanbarth, gan gyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd. Roedd hi'n cytuno gydag arallgyfeirio, ond mae uchafswm o ran nifer y lleoliadau twristiaeth y mae'n addas eu cael cyn i'r farchnad fynd yn orlawn a nododd bod ffermydd ucheldirol yn addas ar gyfer ffermio anifeiliaid yn unig. Esboniodd EW eu bod yn chwilio am ddynodiad y byddai'r cymunedau yn ei gefnogi ac a fyddai'n helpu'r economi i dyfu. Nododd bod rhai cynydu y byddai modd eu tyfu mewn ucheldiroedd. Dywedodd PH o NFU y byddai ffermwyr yn amau'r cam o osod dynodiad ar y rhanbarth. Nododd y gallai ffermio wneud cyfraniad i'r ymdrech i leihau allyriadau carbon.</p>
<p>8.</p>	<p>Ymgynghoriad – Gwella Band Eang i Safleoedd Anodd eu Cyrraedd</p> <p>i. Ymateb rhanbarthol drafft i'w ystyried</p> <p>Hysbysodd CM y cyfarfod y byddai tîm RET yn llunio ymateb rhanbarthol i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ynghylch Gwella Band Eang i Safleoedd Anodd eu Cyrraedd.</p>
<p>9.</p>	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Amlygwyd dan Eitem 4 – diweddariad RSP bod gofyn enwebu cynrychiolydd ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i'r RSP newydd. Yn dilyn trafodaeth fer, teimlwyd bod gofyn cael gwybodaeth bellach er mwyn gallu gwneud enwebiad.</p> <p>Gweithredu – Bydd swyddogion rhanbarthol yn rhoi gwybodaeth bellach i Gadeiryddion a Phartneriaeth TCC ynghylch Aelodaeth RSP er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ynghylch enwebu.</p>

